COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Bwrdd y Coleg, 19 Tachwedd 2025 (10:00 – 1.30), Prifysgol Bangor**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | Nia Elias (Teams) |
| | Rhys Evans (Teams) |
| | John Hayes |
| | Meri Huws |
| | Yr Athro Anwen Jones (Teams) |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd |
| | Angharad Roberts |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedyddion:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) (Teams) |
| | Deio Owen (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Addysg Bellach, Prentisiaethau a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |

Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Mari Fflur (Uwch Reolwr Polisi)
Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu)

**Cofnodion Cyfarfod 19 Tachwedd 2025**

1. **Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Efa Gruffydd Jones (Comisiynydd y Gymraeg) ac Osian Llywelyn (Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg) i'r cyfarfod. | | |
| 1.3 | Nodwyd y byddai uwch reolwyr nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ymuno o bell i wrando. | | |

2. **Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

3. **Eitem 3 – Cyflwyniad Gweithluoedd a Gweithleoedd: eu rôl mewn perthynas â Chymraeg 2050**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Rhoddwyd cyflwyniad ar weithluoedd a gweithleoedd: eu rôl mewn perthynas â Chymraeg 2050 gan Efa Gruffydd Jones (Comisiynydd y Gymraeg) ac Osian Llywelyn (Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg). | | |
| 3.2 | Adroddwyd ar rôl Comisiynydd y Gymraeg yn rheoleiddio, hybu, a dylanwadu a chyfathrebu yn unol â Mesur y Gymraeg a'r Safonau. | | |
| 3.3 | Adroddwyd ar rôl Comisiynydd y Gymraeg yn arwain a chydlynu'n strategol y gwaith o gynllunio a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd hefyd ar bwysigrwydd perthynas gydlynus rhwng Comisiynydd y Gymraeg, y Coleg Cymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a'r Athrofa maes o law). | | |
| 3.4 | Trafodwyd:<br>i. y cyfleoedd i'r Coleg a'r Comisiynydd gydweithio i gynllunio gweithluoedd ar draws sectorau<br>ii. creu cysylltiadau rhwng addysg, hyfforddiant a'r gweithle er mwyn sicrhau sgiliau Cymraeg ymarferol<br>iii. y rhwystrau a'r heriau wrth geisio cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithluoedd<br>iv. sut y gellir mesur llwyddiant?<br>v. adnoddau y gellid eu datblygu i gefnogi sefydliadau | | |
| 3.5 | Diolchwyd i Efa Gruffydd Jones ac Osian Llywelyn wrth iddynt adael y cyfarfod. | | |

## 4. Eitem 4 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar a nodwyd y diweddariadau yn yr adroddiad. | | |
| 4.2 | **Ymweliadau**<br>Adroddwyd ar ymweliad llwyddiannus gan Paul Davies AS a Sam Kurtz AS i Goleg Sir Benfro ar 17 Tachwedd 2025. | | |
| 4.3 | **Cynllun Strategol y Coleg**<br>Adroddwyd ar drafodaethau'r Uwch Reolwyr ar gynllun strategol. Nodwyd y bydd gweithdy ar y mater yn cael ei drefnu i aelodau'r Bwrdd yn mis Chwefror a chyflwynir diweddariad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 25 Mawrth 2026. Bydd y cynllun strategol newydd yn mabwysiadu fframwaith ar gyfer cynllunio yn y sector trydyddol. | Gweithdy i'w drefnu ar gyfer aelodau Bwrdd ar y Cynllun Strategol.<br><br>Diweddariad i'r Bwrdd ar lunio Cynllun Strategol. | Chwefror 2026<br><br>25 Mawrth 2026 |
| 4.4 | **Cyllideb y Coleg a Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Hydref y rhagwelir na | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fydd newid sylweddol i gyllideb y Coleg yn 2026/27.<br><br>Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 22 Hydref 2025 lle y mynegwyd consyrn am y posibilrwydd na fydd Llywodraeth Cymru'n llwyddo sicrhau mwyafrif o blaid y gyllideb nodwyd y byddai goblygiadau hynny y tu hwnt i effaith ar gyllideb y Coleg. Yn deillio o'r drafodaeth hynny, a chanlyniadau posibl etholiadau Senedd Cymru yn 2026, cytunwyd i baratoi amlinelliad lefel uchel o senarios cyllido posib  i'w cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2026. | Cyflwyno amlinelliad o senarios cyllido posibl i'r Bwrdd yn dilyn etholiadau Mai 2026 | 25 Mawrth 2026 |
| 4.5 | **Trafodaethau gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru**<br><br>Nodwyd diolch i Bethan Webb mewn cyfarfod ar 18 Medi am ei chefnogaeth i waith y Coleg wrth iddi ymadael â'i swydd fel Pennaeth Is-Adran y Gymraeg.<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Polisi ac Ymgysylltu ar waith ymgysylltu sydd wedi dwysau ers cyhoeddi Maniffesto'r Coleg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.6 | **Bil y Gymraeg ac Addysg**<br>Adroddwyd ar gydberthynas Comisiynydd y Gymraeg, y Coleg a'r Athrofa. Penodir Cadeirydd i'r Athrofa'n fuan. | | |
| 4.7 | **Y Coleg a Medr**<br>Adroddwyd ar gyfarfod rhwng Cadeirydd y Bwrdd a Phrif Weithredwr y Coleg â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Medr ar 12 Tachwedd.<br>Mae patrwm o gyfarfodydd deufisol rhwng swyddogion Medr a swyddogion y Coleg wedi'i sefydlu. | | |
| 4.8 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd ar gydweithio gyda Phrifysgolion Cymru o ran ymgysylltu a gwaith polisi. Mae prif alwadau Prifysgolion Cymru yn eu maniffesto yn adlewyrchu nifer o faterion sydd wedi'u trafod eisoes yn y Bwrdd. | | |
| 4.9 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br>Adroddwyd ar y cyfleoedd i godi uchelgais ac ymestyn profiadau cyfrwng Cymraeg dysgwyr a phrentisiaid. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bu pwyslais yng Nghynhadledd ColegauCymru ar y Gymraeg a'r cydsyniad o weithio ar draws y sector trydyddol. | | |
| 4.10 | **Darpariaeth Chweched Dosbarth**<br>Adroddwyd ar drafodaethau pellach gyda CYDAG i sicrhau cytundeb i rannu cyngor drafft a gyflwynir i Medr o dan y dynodiad.<br>Adroddwyd bod Angharad Roberts wedi cytuno i fod yn aelod Bwrdd ar y Fforwm Ysgolion. | | |
| 4.11 | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth**<br>Adroddwyd ar y Cynllun Sbarduno sydd wedi recriwtio mwy o fentoriaid a phobl ifanc ledled Cymru.<br>Adroddwyd yn ogystal ar y Cynllun Llywio sy'n gynllun peilot ar waith eleni, a bydd yn rhoi profiad ymarferol i ddarpar arweinwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar bwyllgorau a Bwrdd y Coleg. Bydd hefyd yn cynnig llwybr dilyniant posib fel bod llywodraethiant y Coleg yn adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.12 | **Adnoddau Dynol**<br>Adroddwyd, yn sgil esblygiad yng ngwaith y Coleg, bod cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi cael eu hadolygu. Nodwyd y bydd Dr Dylan Phillips yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ac Ysgrifennydd, Gwenllian Griffiths fel Cyfarwyddwr Materion Allanol a Dr Dafydd Trystan fel Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol. | | |

## 5. Eitem 5 – Cofnodion 25 Mehefin 2025

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025. | | |

## 6. Eitem 6 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Eitem 3.5 – Adroddwyd bod cyngor y Coleg ar egwyddorion rheoleiddio i Medr wedi'i osod yn ffolder Teams y Bwrdd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Eitem 4.2 – Adroddwyd y gosodwyd y pecyn newid ymddygiad yn ffolder Teams y Bwrdd. | | |

**7. Materion y Cadeirydd - Adolygiad llywodraethiant - CAEËDIG**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Alan Jones a Deio Owen (sylwedyddion)* | | |
| 7.1 | **Adolygiad llywodraethiant**<br>Rhoddwyd cyd-destun yr adolygiad llywodraethiant gan yr Ysgrifennydd. | | |
| 7.2 | Adroddwyd ar yr holiadur hunan-werthuso a gwblheir gan aelodau'r Bwrdd yn flynyddol.<br>Adroddwyd hefyd ar yr adolygiadau blaenorol sef:<br>i. Adolygiad Wyn Mears (2013) ar gais y Cyngor Cyllido Addysg Uwch<br>ii. Adolygiad i'r cyfansoddiad (2015) – adolygwyd erthyglau cymdeithasu'r Coleg<br>iii. Adolygiad Llywodraeth Cymru gan Delyth Evans (2016) –<br>iv. Gweithgor Cyfansoddiadol dan gadeiryddiaeth yr Athro Iwan Davies yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | diwygio'r erthyglau cymdeithasu a sefydlu'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol<br>v. Adolygiad i'r cyfansoddiad (2022) – newidiadau i'r ddogfen llywodraethiant gan gyfreithwyr y Coleg<br><br>Adroddwyd bod adroddiad diweddar yr Archwilwyr Mewnol ar lywodraethiant wedi cynnig sicrwydd sylweddol i weithdrefnau llywodraethiant y Coleg. | | |
| 7.3 | Yn dilyn trafodaeth ar themâu i'r adolygiad llywodraethiant arfaethedig argymhellwyd bod angen rhoi sylw i'r canlynol:<br>i. aelodaeth<br>ii. cynrychiolaeth<br>iii. sgiliau a phrofiadau<br>iv. rôl a chyfrifoldebau<br>v. trefniadau<br>vi. diwylliant | | |
| 7.5 | Nodwyd proses caffael y Coleg a phwysigrwydd recriwtio cwmni â dealltwriaeth llawn o'r maes i ymgymryd â'r adolygiad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.6 | Argymhellwyd dirprwyo'r gwaith o ystyried awgrymiadau pellach a llunio manyleb i grŵp tasg cyn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion pwyllgorau'r Bwrdd, i'w drafod yn y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar 21 Ionawr 2026, a wedyn i'w rannu gydag aelodau'r Bwrdd drwy ohebiaeth ar gyfer eu cymeradwyaeth. | Grŵp tasg i ystyried a llunio manyleb ar gyfer yr adolygiad llywodraethiant<br><br>Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant i'w drafod<br><br>Copi terfynol i'w rannu gyda'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth | Cyn diwedd Rhagfyr 2025<br><br>21 Ionawr 2026<br><br>31 Ionawr 2026 |
| 7.7 | Argymhellwyd hysbysebu gyda'r nod o gomisiynu'r adolygiad erbyn Mawrth 2026. | Hysbysebu ar gyfer cwmni/unigolyn i gynnal yr adolygiad llywodraethiant | Erbyn Mawrth 2026 |
| | *Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Alan Jones a Deio Owen (sylwedyddion) yn y cyfarfod* | | |

## 8. Eitem 8 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Cofnodion (Eitem 8i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd ar: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | <ul><li>gyflwyniad yr Athro Pedr ap Llwyd ar amrywiaeth ar fyrddau</li><li>ymgyrch a fideo recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd</li><li>drefniadau penodi Is-Gadeirydd y Bwrdd yn dilyn diwedd tymor Llinos Roberts</li></ul> | | |
| 8.2 | **Gweithdrefnau penodi (Eitem 8ii)**<br>Derbyniwyd a chymeradwywyd Gweithdrefnau Penodi y Bwrdd a'i bwyllgorau. | | |
| 8.3 | **Ail dymor aelod Bwrdd**<br>Nodwyd y cadarnhawyd ail dymor Rhys Evans ar y Bwrdd o 17 Tachwedd 2025 hyd at 16 Tachwedd 2029 drwy ohebiaeth. | | |
| 8.4 | **Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**<br>Nodwyd penodi'r Athro Anwen Jones fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn lle'r Athro Pedr ap Llwyd. | | |

## 9. Eitem 9 – Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion (Eitem 9i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2025.<br>Adroddodd Rhys Evans, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar:<br>• bwysigrwydd yr adolygiad llywodraethiant<br>• Deallusrwydd Artiffisial (AI)<br>• Hyfforddiant Deallusrwydd Artiffisial i staff y Coleg ym mis Rhagfyr | | |
| 9.2 | **Cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg (Eitem 9ii)**<br>Derbyniwyd a chymeradwywyd cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2024/25. | | |
| 9.3 | **Adroddiad blynyddol yr archwilwyr allanol (Eitem 9iii)**<br>Derbyniwyd adroddiad blynyddol yr archwilwyr allanol. | | |
| 9.4 | **Y Gofrestr Risg Strategol**<br>Nodwyd cofrestr risg strategol y Coleg, er gwybodaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Rhys Evans a'r Athro Anwen Jones y cyfarfod* | | |

**10. Eitem 10 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 10)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025.<br>Diolchwyd i'r Athro Pedr ap Llwyd am ei wasanaeth nodedig fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a nododd ei werthfawrogiad yntau o'r profiad o gydweithio gyda swyddogion y Coleg.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

**11. Eitem 11 – Bwrdd Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnodion (Eitem 11)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2025.<br>Adroddodd yr Athro Enlli Thomas, cadeirydd y Bwrdd Academaidd:<br>• mai Dr Non Vaughan Williams yw Is-Gadeirydd newydd y Bwrdd Academaidd<br>• bod Fforwm Llais y Dysgwr wedi mynegi pryder am ddiffygion darparu asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai sefydliadau a bod Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal arolwg<br>• ar hawl myfyrwyr i gael tiwtor personol cyfrwng Cymraeg<br>• ar bryder costau byw myfyrwyr | | |

**12. Eitem 13 – Bwrdd Strategol Ôl-16**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion (Eitem 12)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025.<br>Adroddodd Meri Huws, cadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • bod Yusuf Ibrahim wedi cadeirio'r bore<br>• ar gyflwyniad gan Lywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru<br>• ar gyflwyniad ar faniffesto ColegauCymru<br>• ar gyflwyniad gan Addysg Oedolion Cymru<br>• ar drafodaeth i symud dysgwyr ar hyd y continwwm i astudio ar lefel C1 neu B1 | | |

**13. Eitem 13– Materion cyfansoddiadol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Llys y Coleg**<br>Nodwyd y cynhelir cyfarfod cyffredinol blynyddol y Coleg (y Llys) yn rhithiol ar 23 Mawrth 2026. | | |
| 13.2 | **Cylchoedd gorchwyl (Eitem 13)**<br>Derbyniwyd cylchoedd gorchwyl y:<br>• Pwyllgor Archwilio a Risg<br>• Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol<br>• Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant<br>• Bwrdd Academaidd<br>• Bwrdd Strategol Ôl-16 | | |

## 14. Eitem 14 – Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Dyddiadau cyfarfodydd nesaf (Eitem 16)**<br>Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 25 Mawrth 2026, Caerfyrddin (cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar 24 Mawrth)<br>• 24 Mehefin 2026, Caerdydd | | |

## 15. Eitem 15 – CAEËDIG – cofnod ar wahân

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Aled Eirug, sylwedyddion a'r Uwch Reolwyr a symudodd yr Is-Gadeirydd Llinos Roberts i'r gadair.* | | |